Ymgynghoriad ynghylch y Polisi Cosbau Ariannol

Adroddiad ar y penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad

Mai 2019

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 5
3. Y Polisi Cosbau Ariannol – Penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad 6

1. Cyflwyniad

Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ynghylch pum polisi:

- Y Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu;
- Y Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban;
- Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith;
- Y Polisi Cosbau Ariannol;
- Y Polisi Capio Ffioedd.

Roedd pedwar o'r polisïau – Cwynion am Gyrff Dyfarnu, Chwythu'r Chwiban, Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith a Chapio Ffioedd – yn bolisïau cyhoeddedig, ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ddiwygiadau i'r polisïau hyn.

Roedd y Polisi Cosbau Ariannol yn bolisi newydd, a chaiff ei gyhoeddi yn 2019 ar ôl cyflwyno Rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi trefniadau ar waith i sefydlu Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Mae gennym **Fframwaith a Dull Rheoleiddio** sy'n nodi'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio, ac mae pob un o'r polisïau yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn rhan o amrywiaeth o gamau rheoleiddio sydd ar gael i ni eu defnyddio fel y bo'n briodol ym mhob sefyllfa benodol. Ein nod cyffredinol yw diogelu buddiannau dysgwyr ac ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Mae ein holl bolisïau rheoleiddio yn seiliedig ar **bum egwyddor rheoleiddio da** (2003), sef:

- Cymesuredd;
- Atebolrwydd;
- Cysondeb;
- Tryloywder;
- Targedu.

Felly, nod yr ymgynghoriad oedd ein helpu i sicrhau bod y polisïau a gyflwynir yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn, a thrwy hynny wella ansawdd ein gwaith rheoleiddio a gorfodi.

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, cyflwynwyd y pum polisi gyda'i gilydd er mwyn rhoi darlun llawnach o'r ystod o gamau gweithredu y gallai Cymwysterau Cymru eu cymryd fel rhan o'n rôl reoleiddio. Mae'r polisi Cwynion a'r polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban yn rhan bwysig o'n rôl reoleiddio, gan ein bod yn monitro'r system ar sail y wybodaeth a gawn gan randdeiliaid o bob rhan o'r system. Yn yr un modd, mae ein pwerau i gapio ffioedd ac i osod cosbau ariannol yn rhai pwysig, yr

ydym yn eu cymryd o ddifrif, ac rydym yn awyddus i nodi'n glir sut y gallwn ddefnyddio'r rhain yn ein polisïau.

Cyhoeddwyd adroddiad i grynhoi ein penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw ym mis Mawrth 2018. Yn yr adroddiad hwnnw, cyflwynwyd ein camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r pum polisi yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Cafodd tri o'r polisïau hyn eu diwygio a'u cyhoeddi yn sgil cyhoeddi'r adroddiad hwnnw ym mis Ebrill 2018:

- Y Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu;
- Y Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban;
- Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith

Mae dau bolisi arall wedi cael eu hadolygu ers hynny:

- Y Polisi Cosbau Ariannol
- Y Polisi Capio Ffioedd

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein penderfyniadau ynghylch ein **Polisi Cosbau Ariannol**.

2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 24 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid a sefydliadau. Cafwyd 22 o ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein a dau drwy e-bost. Cafwyd un ymateb gan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB), y gymdeithas fasnach, a oedd yn ymateb ar ran ei aelodau sy'n sefydliadau dyfarnu proffesiynol a thechnegol.

Tabl 1: Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl y math o ymatebydd

Categori'r ymatebydd	Nifer
Corff dyfarnu	**17**
Sefydliadau eraill	**3**
Fel unigolyn	**2**
Heb ddatgelu	**2**
Cyfanswm	**24**

Cyflwynwyd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ran cyrff dyfarnu ac oherwydd cynnwys y polisïau dan sylw, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y materion hyn i gyrff dyfarnu. Wrth ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi pwyso a mesur egwyddorion rheoleiddio da a'r effeithiau posibl ar gyrff dyfarnu. Byddwn bob amser yn ceisio diogelu buddiannau dysgwyr ac ennyn hyder yn y system cymwysterau yng Nghymru, yn ogystal ag iechyd y system honno.

3. Y Polisi Cosbau Ariannol – Penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r angen i Cymwysterau Cymru gael y pŵer hwn ac, felly, roi polisi ar waith. Mae'r adran hon yn amlinellu'r meysydd lle y cafwyd adborth gan ymatebwyr a lle rydym wedi gwneud diwygiadau i'r polisi yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rhagor o fanylion am yr amgylchiadau lle y byddem yn gosod Cosb Ariannol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y polisi'n nodi'n glir yr amgylchiadau lle y byddem yn ystyried gosod cosb ariannol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai am ragor o eglurder mewn perthynas â rhai meysydd. Rydym wedi diwygio'r adran hon, ac er na allwn ddarparu rhestr gynhwysfawr o amgylchiadau, rydym yn cynnig rhestr helaeth ohonynt ac yn cydnabod arwyddocâd posibl cosb ariannol.

Rydym wedi nodi'n glir y byddem yn ystyried gosod cosb ariannol mewn perthynas ag achos o ddiffyg cydymffurfio ag Amod Cydnabod neu Amod Cymeradwyo.

Yn unol â'n Polisi Camau Pan Aiff Pethau o Chwith, byddem bob amser yn ystyried y camau mwyaf priodol i'w cymryd wrth ymateb i bob achos unigol o ddiffyg cydymffurfio. Felly, byddem yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth bennu a oedd Cosb Ariannol yn ymateb priodol i achos penodol o ddiffyg cydymffurfio. Rydym wedi cynnwys rhestr ddangosol o hyn ym mharagraff 2 o'n polisi diwygiedig.

Yn ystod ein hymgynghoriad, nodwyd gennym y byddem yn ystyried cosbau ariannol mewn achosion lle roedd effaith andwyol sylweddol. Gofynnodd rhai ymatebwyr i ni egluro'r term hwn. Rydym wedi mireinio hyn ym mharagraff 2 er mwyn cyfeirio at ddifrifoldeb yr achos o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys ei effeithiau ar ddysgwyr, ar safonau cymwysterau a/neu ar hyder y cyhoedd yn y system cymwysterau yng Nghymru.

Nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad y byddem yn disgwyl i gyrff dyfarnu gydweithredu â ni er mwyn pennu unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a fyddai achos o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gynnig cosb ariannol. Rydym wedi nodi'n gliriach ym mharagraff 22 o'r polisi diwygiedig er ein bod yn disgwyl i gyrff dyfarnu gydweithredu â'n hymchwiliad, y byddai hyn yn dod yn rhan o'n harfer a'n ffyrdd o weithio, yn hytrach na'r ffactor wrth bennu a ddylid gosod cosb ariannol.

Y ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth bennu swm Cosb Ariannol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r holl ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth bennu swm Cosb Ariannol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, nodwyd gennym y byddem yn ystyried maint busnes corff dyfarnu wrth bennu swm unrhyw gosb ariannol. Cafodd hyn ei ddehongli gan rai ymatebwyr i olygu mai dim ond ar gyfer cyrff dyfarnu mwy o faint y byddem yn defnyddio cosbau ariannol. Ein bwriad oedd dangos y byddai swm cosb ariannol yn gymesur â busnes y corff dyfarnu hwnnw, ac rydym, wedi ail-eirio'r adran hon er mwyn gwneud hyn yn gliriach.

Y cap ar gosbau ariannol

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 22 Hydref 2018 a 7 Ionawr 2019 ynghylch Rheoliadau i bennu terfyn uchaf unrhyw gosb ariannol y gallem ei gosod.

Cymeradwywyd y Rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Ebrill 2019. Mae'r Rheoliadau hyn wedi pennu mai 10% o drosiant perthnasol corff dyfarnu fydd terfyn uchaf unrhyw gosb ariannol y gallwn ei gosod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gyfrwymol yn gyfreithiol, ac ni fyddwn yn gallu gosod cosb sy'n fwy na'r terfyn hwn.

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno'r Rheoliadau hyn, ni fwriedir i'r terfyn uchaf ar gyfer Cosbau Ariannol fod yn arwydd o lefel y cosbau ariannol hynny.

Fel y nodwyd gennym yn ein polisi, pan fyddwn wedi penderfynu ei bod yn briodol gosod cosb ariannol, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau er mwyn pennu union swm y gosb ariannol, a hynny fesul achos.

Cosb Ddwbl

Tynnodd rhai o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad sylw at y posibilrwydd y gallai cyrff dyfarnu gael Cosbau Ariannol yng Nghymru a chan Ofqual yn Lloegr mewn perthynas â'r un achos o ddiffyg cydymffurfio, Er nad oes dim yn y gyfraith i atal hyn rhag digwydd, bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried unrhyw gosbau ariannol eraill a osodwyd gan gyd-reoleiddwyr ar gyfer yr un achos.

Nod amlwg Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yw cydgysylltu'r gyfundrefn gorfodi reoleiddiol a lleihau a chwalu beichiau rheoleiddiol. Byddai methu

ag ystyried penderfyniadau rheoleiddwyr eraill yn mynd yn groes i ddarpariaethau'r Ddeddf hon.

Apeliadau

Yn ystod ein hymgynghoriad, nodwyd gennym y gallai cyrff dyfarnu a oedd yn destun Hysbysiad Cosb Ariannol a/neu Hysbysiad Adennill Costau apelio yn erbyn ein penderfyniad drwy'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid rhoi mwy o fanylion am y broses o wneud hynny, gan gynnwys yr amserlenni gofynnol.

Rydym wedi cydweithio â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth ddatblygu ein Polisi Cosbau Ariannol ac rydym yn y broses o sefydlu'r trefniant hwn.

Mae'r Polisi'n rhoi manylion i gyrff dyfarnu am sut i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Fodd bynnag, pennir y gweithdrefnau ar gyfer yr apeliadau hyn gan y Tribiwnlys, a bydd angen i gyrff dyfarnu gysylltu â'r Tribiwnlys er mwyn dilyn trefniadau o'r fath.

Caiff trefniadau newydd ar gyfer ein Polisi Cosbau Ariannol eu cyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys Haen Gyntaf maes o law.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan Wasanaeth Llysoedd a Tribiwnlysoedd EM yn: https://www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-general-regulatory-chamber